Polisi a Chyngor Amddiffyn Plant

Y mae Kathryn Vickers yn Swyddog Datblygu ar gyfer Polisi a Chyngor Amddiffyn Plant. Fe gaiff y swydd hon ei rheoli ar y cyd gan Plant yng Nghymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru ac fe'i hariannir gan Sefydliad Paul Hamlyn.

Am ragor o wybodaeth am y gwaith hwn, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Kathryn Vickers: Kathryn.Vickers@childreninwales.org.uk

Y mae Deddfau Plant 1989 a 2004 ill dwy'n datgan bod 'lles y plentyn yn bennaf ystyriaeth'. Y mae cynnen yn codi wedyn pan fo darn arall o ddeddfwriaeth yn gwrthdaro'n uniongyrchol â'r syniad hwn: Y mae Deddfau Lloches a Mewnfudo 1999, 2002 a 2004 yn canolbwyntio ar yr angen am ganllawiau a gweithdrefnau llym yn hytrach na lles, ac y mae yna ddadleuon nad yw lles plant yn cael ei ystyried yn bennaf ystyriaeth o dan y ddeddfwriaeth hon. Ymhellach i hyn, o fewn Deddf Plant 2004, y mae Adran 11 yn datgan bod gan asiantaethau'r wladwriaeth ddyletswydd i amddiffyn plant; fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys sefydliadau ceiswyr lloches a ffoaduriaid, ac y mae gan Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neilltuad gan lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddehongli'r Cytundeb yn ôl rheidrwydd mewnwladol ynglŷn â lloches. Felly, yn y Deyrnas Unedig y mae yna wrthdaro rhwng y sawl sy'n blaenoriaethu deddfau lloches dros ddeddfau lles plant mewnwladol a'r sawl sy'n blaenoriaethu lles plant. Fodd bynnag, y mae yna lawer a fyddai'n dadlau bod deddfau'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys canllawiau megis 'Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004', yn datgan yn hollol eglur bod gennym ddyletswydd i amddiffyn pob plentyn yn y Deyrnas Unedig, boed yn ddinesydd cenedlaethol ai peidio.

O fewn y cyd-destun hwn, felly, nid oes yna unrhyw rwymedigaeth wedi bod ar asiantaethau megis Cyngor Ffoaduriaid Cymru o dan ddeddfwriaeth i flaenoriaethu lles plant. Fodd bynnag, y mae unigolion o fewn y sefydliad wedi ystyried bod hwn yn faes pwysig ac yn un sydd wedi'i esgeuluso. Rhan o amcan fy swydd, felly, yw ystyried Amddiffyn Plant o fewn cyd-destun Cyngor Ffoaduriaid Cymru, i gynorthwyo yn y gwaith o ddarparu cefnogaeth, hyfforddiant a chyngor, ble y bo'n angenrheidiol.

Elfen ganolog Deddf Plant 2004 oedd sefydlu ffordd ar y cyd o weithio, o gynyddu cyfathrebu ac o greu didwylledd ble y gellir amddiffyn plant. Yn ychwanegol at hyn, y mae'n rhaid i agwedd o waith amddiffyn plant weithio ar lefel atal yn ogystal â chynorthwyo'r sawl sydd mewn argyfwng. Y mae hi wedyn yn bwysig bod nid yn unig cyrff y wladwriaeth yn gysylltiedig â hyn, ond hefyd y sefydliadau a'r grwpiau cymunedol hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd. Y mae ail ran fy swydd felly yn golygu codi ymwybyddiaeth o amddiffyn plant ymysg Grwpiau Cymunedol Ffoaduriaid gyda golwg i sefydlu dealltwriaeth ehangach o faterion amddiffyn plant o fewn cyfraith y Deyrnas Unedig a sut i atal plant rhag dioddef niwed o fewn teuluoedd.

Y mae'r ddau amcan canolog hyn yn ffurfio prif ran fy ngwaith. Yn ychwanegol, fe fyddaf yn ymgymryd â rhai gorchwylion neilltuol eraill, megis:
Amddiffyn Plant yn Gyffredinol

i. Gwella ymarfer amddiffyn plant amlasiantaethol o fewn y pedair ardal – *Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam*.

ii. Dylanwadu ar arfer Cymru gyfan

Plant

iii. Codi ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant i a thrwy gyfrwng plant a phobl ifanc o gefndiroedd ffoaduriaid.

Gwaith Ymgyrch

iv. Cefnogi gwaith ac ymgyrchoedd rhwydweithiau allweddol yng Nghymru ac ar lefel Brydeinig ac Ewropeaidd – *er mwyn amddiffyn plant o fewn cymunedau ffoaduriaid.*